



Canllaw i Wasanaeth Rhentu Cyngor Bro Morgannwg

Sut alla' i dalu fy rhent?

Gallwch dalu'ch rhent mewn pump gwahanol ffordd.

1. Yn y Swyddfa Ddinesig - Mae'r swyddfa arian parod ar agor rhwng 8.45am – 4.30pm o ddydd Llun i ddydd Iau a rhwng 8.45am – 4.00pm ar ddydd Gwener.
2. Drwy Ddebyd Uniongyrchol drwy eich Banc neu Gymdeithas Adeiladu. Bydd angen llenwi ffurflen Debyd Uniongyrchol i wneud hyn. Gallwch gael ffurflen gan y Tîm Incwm ar 01446 706511 / 709513 / 709514
3. Yn Swyddfa'r Post os oes gennych gerdyn talu rhent. Os ydych yn talu yn Swyddfa'r Post, bydd y taliadau'n cymryd hirach i gyrraedd y Cyngor, felly bydd angen i chi dalu'ch rhent ar ddechrau'r wythnos y mae'n daladwy.
4. Drwy Gerdyn Credyd/Debyd ar y gwasanaeth ffôn 01446 709239. Mae'r swyddfa ar agor ar yr un pryd â holl Swyddfeydd y Cyngor.
5. Talwch ar-lein ar wefan Cyngor Bro Morgannwg gan ddefnyddio Cerdyn Credyd/Debyd. Bydd angen rhif pin arnoch i wneud hyn.

Pryd ddylwn i dalu fy rhent?

Mae'n rhaid i chi dalu'ch rhent wythnosol gan gynnwys unrhyw gostau eraill ymlaen llaw. Os nad ydych yn gwneud hyn, bydd dyled ar eich cyfrif a byddwn yn gorfod anfon llythyrau atoch yn nodi bod gennych ôl-ddyledion. Mae'n rhaid talu'ch rhent ar ddydd Llun yr wythnos y mae'n daladwy.

Beth sy'n digwydd os na allaf dalu'r rhent?

Os nad ydych yn gallu talu'ch rhent dylech gysylltu â'r Tîm Incwm ar 01446 709511 / 512 / 513 / 514 yn syth. Os rydym yn gwybod am broblem, yn aml byddwn yn gallu'ch helpu. Os ydych yn oedi yn lle cymryd camau'n syth, mae'n bosibl y byddwch yn cael problemau difrifol yn y dyfodol. Mae'n bwysig iawn nad ydych yn anwybyddu'r llythyrau y byddwn yn eu hanfon atoch. **Cofiwch, os ydych yn cysylltu â ni'n syth, bydd hi'n haws i ni eich helpu chi.**

Rwyf wedi derbyn llythyr yn nodi fy mod mewn dyled. Beth ddylwn i ei wneud?

Darllenwch y llythyr yn ofalus a sicrhewch eich bod yn derbyn y Budd-dal Tai yr ydych yn gymwys ar ei gyfer. Os ydych yn gwybod eich bod mewn dyled, talwch yn ôl y swm sy'n ddyledus cyn gynted â phosibl. Os nad ydych yn gallu talu'n ôl yn syth

bydd angen i chi gysylltu â'r Tîm Incwm cyn gynted â phosibl fel bod modd i ni eich helpu i ddatrys y mater.

Os nad ydych yn cytuno ar y balans ar eich cyfrif rhent, dylech gysylltu â ni'n syth. Byddwn yn anfon copi diweddar i chi o'ch datganiad rhent gyda manylion am yr holl daliadau a dderbyniwyd i'ch cyfrif rhent. Dylech wirio unrhyw dderbynebaw yn erbyn y datganiad hwn. Dylech gadw'r holl dderbynebaw fel prawf eich bod wedi talu. Unwaith y flwyddyn, bydd y Cyngor yn anfon llythyr yn cadarnhau'r balans ar eich cyfrif rhent.

Sut alla' i gael cymorth gyda fy rhent?

Os ydych yn derbyn Budd-daliadau gan yr Adran Gwaith a Phensiynau, (a oedd yn cael ei alw'n Asiantaeth Budd-daliadau neu'r Adran Nawdd Cymdeithasol) efallai y byddwch yn gymwys am Fudd-dal Tai i'ch helpu i dalu'ch rhent. Mae cyfanswm y Budd-dal Tai a dderbynnir yn dibynnu ar y math a'r cyfansymiau o Fudd-daliadau yr ydych yn eu derbyn. Os ydych am wneud cais am ad-daliad rhent, bydd angen i chi lenwi ffurflen gais a rhoi gwybodaeth am eich sefyllfa ariannol bersonol i'r Adran Budd-dal Tai. Bydd staff y Cyngor yn hapus i'ch helpu wrth lenwi'r ffurflen hon. Bydd hyn yn galluogi'r Adran Budd-dal Tai i gyfrifo cyfanswm yr ad-daliad rhent yr ydych yn gymwys ar ei gyfer.

Os ydych yn denant newydd, bydd eich Rheolwr Cymdogaeth yn gallu rhoi unrhyw wybodaeth sydd ei hangen ynghylch eich amodau tenantiaeth. Yn ystod eich apwyntiad cofrestru, caiff apwyntiad Cyngor Ariannol ei drefnu i'ch helpu i wneud cais am y budd-daliadau perthnasol ac i'ch helpu gydag unrhyw gyngor o ran creu cyllideb.

Rhaid i chi gwblhau'r ffurflen gyflawn i'r Adran Budd-dal Tai yn syth, oherwydd bydd y Budd-dal Tai yn cael ei dalu o'r dydd Llun ar ôl y dyddiad y caiff eich cais ei dderbyn. Cyngor Bro Morgannwg, Swyddfeydd Dinesig, Heol Holltwn, Y Barri yw cyfeiriad eich Swyddfa Budd-dal Tai. Rhif ffôn 01446 709244

Cofiwch -

- Gofynnwch i'r Adran Budd-dal Tai am dderbynnwch ar gyfer unrhyw wybodaeth yr ydych yn ei rhoi
- Nes bydd yr adran Budd-dal Tai yn dweud wrthy'ch faint o Fudd-dal Tai y byddwch yn ei dderbyn, mae gofyn i chi dalu'r rhent cyfan.
- Mae'n bwysig cofio bod peth o'r rhent y bydd y Cyngor yn ei godi yn cynnwys elfennau ar ddŵr a charthffosiaeth sy'n cael eu casglu ar ran y cwmni. Nid yw'r rhannau hyn o'r rhent yn berthnasol i'r Budd-dal Tai ac mae'n rhaid iddynt gael eu talu gan bob tenant waeth beth fo'u hincwm.
- Os ydych yn derbyn taliadau Credyd Cynhwysol bydd yr elfen Budd-dal Tai wedi'i chynnwys yn y taliad hwn. Byddwch yn gyfrifol am dalu eich rhent o'r taliad misol hwn sy'n cael ei dalu'n uniongyrchol i chi.

Pa gymorth sydd ar gael os ydw i'n cael trafferth i dalu fy rhent?

Os oes gennych ôl-ddyledion am ba bynnag reswm, mae'n bwysig iawn eich bod yn rhoi gwybod i'r Swyddog Incwm yn syth. Byddant yn falch o gynnig cyngor cyfeillgar ac adeiladol. Byddant yn cynnig apwyntiad Cyngor Ariannol er mwyn eich helpu i greu cyllideb i drefnu'ch arian yn effeithiol a sicrhau eich bod yn derbyn yr holl Fudd-daliadau yr ydych yn gymwys ar eu cyfer. Bydd y Swyddog Incwm yn cytuno ar gyfanswm wythnosol fforddiadwy yn seiliedig ar eich incwm. Rhaid i chi wneud yn siŵr eich bod yn cadw at y cytundeb ac yn talu pob wythnos. Gallwch gysylltu â'r Tîm Incwm neu'r Tîm Cyngor Ariannol, rhif ffôn 01446 709312 / 146 / 588.

Beth fydd y Cyngor yn ei wneud os nad ydw i'n talu fy rhent?

Gall peidio â thalu eich rhent arwain at ganlyniadau difrifol. Yn ogystal â thorri amodau'r cytundeb tenantiaeth, bydd cael ôl-ddyledion rhent yn eich atal rhag cael eich cofrestru i drosglwyddo neu amnewid eich cartref. Mae'r Cyngor fel arfer yn ysgrifennu at denantiaid sydd â balansau ar eu cyfrifon rhent pob pythefnos. Os yw'r ôl-ddyledion rhent yn parhau neu'n cynyddu, bydd y Cyngor yn cyflwyno Hysbysiad Ceisio Meddiant, ac yn y pendraw'n cymryd camau cyfreithiol yn eich erbyn drwy'r Llys er mwyn adfeddiannu eich cartref.

Beth yw Hysbysiad Ceisio Meddiant?

Mae hwn yn hysbysiad cyfreithiol sy'n eich rhybuddio chi os nad ydych yn sicrhau bod eich cyfrif rhent yn gyfredol, bydd y Cyngor yn rhoi gwybod yn ffurfiol i chi y bydd yn gwneud cais i'r Llys Sirol am orchymyn ildio meddiant. Fel arfer, bydd yr Hysbysiad Ceisio Meddiant yn cael ei ddanfôn â llaw i'ch eiddo. Os ydych yn derbyn Hysbysiad, mae'n bwysig eich bod yn cysylltu â'r Cyngor i gytuno ar drefniadau i glirio unrhyw ôl-ddyledion sy'n weddill. Os nad ydych yn gwneud hyn, bydd y Cyngor yn dechrau ar brosesau yn y Llys Sirol i feddiannu'ch cartref. Yn ystod y cam hwn, byddwch yn cael eich galw i'r Llys i roi gwybodaeth ynghylch pam rydych wedi methu â thalu i glirio'ch ôl-ddyledion rhent.

Beth fydd yn digwydd yn y Llys?

Bydd barnwr y Llys Sirol yn penderfynu ar ba gamau fydd yn cael eu cymryd yn eich erbyn. Efallai bydd y Llys yn rhoi caniatâd i'r Cyngor feddiannu eich cartref neu atal y gorchymyn ildio meddiant ar yr amod eich bod yn talu'r rhent a'r cyfanswm ychwanegol yn rheolaidd. Os ydych, ar ôl bod yn y Llys, yn torri telerau'r Gorchymyn Llys, gall y Cyngor ddychwelyd i'r Llys i wneud cais am orchymyn troi allan i'ch gorfodi i adael eich cartref. Bydd unrhyw orchymyn a wneir yn eich erbyn yn gofyn am farn y Llys Sirol. Efallai y bydd hyn yn eich atal rhag cael credyd neu forgais yn y dyfodol. Bydd y Cyngor hefyd yn ceisio costau'r camau gweithredu, a byddwch yn gyfrifol am dalu am y rhain. Ar hyn o bryd, costau'r Llys yw £250.00.

Os oes gennych ôl-ddyledion ac os oes angen cymorth arnoch gallwch hefyd gysylltu â'r asiantaethau cyngor annibynnol a fydd yn fodlon trafod eich achos yn gyfrinachol.

Canolfan Cyngor ar Bopeth, 119 Broad Street, Y Barri, De Morgannwg, CF62 7TZ
Ffôn: 01446 722812 / 0344 477 2020

Shelter Cymru, 23 Heol y Gadeirlan, Caerdydd CF11 9HA
Ffôn: 0845 075 5005

Age Concern, 38 Heol Holltwn, Y Barri CF63 4HD
Ffôn: 01446 747654